

Cyfarfod Fforwm Hil Cymru
28 Mawrth rhwng 3.30pm a 5.00pm
Tŷ Hywel, Bae Caerdydd

Yn bresennol:

Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip

Rosa Brown	Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth
Rocio Cifuentes	Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig
Aled Edwards	Cynrychiolydd y Fforwm Cymunedau Ffydd
Riaz Hassan	Cydgysylltydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol, Bae Abertawe
Daniel Hurford	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Uzo Iwobi	Race Council Cymru
Mutale Merrill	BAWSO
Maria Mesa	Women Connect First
Robert Moore	Grŵp Cydraddoldeb Cymru
Shahien Taj	Henna Foundation
Shavanah Taj	TUC Cymru

Swyddogion Llywodraeth Cymru a oedd yn bresennol

Alyson Francis	Is-adran Cymunedau
Paul Dear	Tîm Cydraddoldeb
Emma Small	Tîm Cydraddoldeb
Bailjit Gill	Tîm Cydraddoldeb

Ymddiheuriadau:

Isaac Blake	Romani Cultural and Arts Company
Tracey Sherlock	Cyngor Ffoaduriaid Cymru
Sunil Patel	Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth

Cyflwyniadau:

Y Prif Uwcharolygydd Mark Warrender, Heddlu Gwent, Cadeirydd Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru ar gyfer Troseddau Casineb

Croeso a Chyflwyniadau

Gwnaeth y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip Jane Hutt groesawu'r aelodau i'r cyfarfod. Dywedodd y Dirprwy Weinidog y byddai'r Prif Weinidog yn cyfeirio at Fforwm Hil Cymru yn ei gynhadledd wythnosol i'r wasg. Mae mynd i'r afael â hiliaeth yn un o flaenoriaethau agenda'r Prif Weinidog a'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad yn dilyn yr ymosodiadau erchyll yn Christchurch yn Seland Newydd ac aeth y ddau ohonynt i wylnos ar 15 Mawrth.

Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod diwethaf a diweddariad ar y camau gweithredu

Cytunwyd ar gofnodion cyfarfod diwethaf Fforwm Hil Cymru (21 Mai 2018). Nodwyd bod yr holl gamau gweithredu wedi cael eu cwblhau.

Eitem 2: Adborth o'r cyfarfod ar 4 Chwefror rhwng y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip a sefydliadau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig

Cytunwyd hefyd ar gofnodion cyfarfod rhwng y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip a rhai o aelodau Fforwm Hil Cymru ar 4 Chwefror 2019. Trafodwyd camau gweithredu'r cyfarfod hwnnw:

- Cam gweithredu 1: (cyfarfod arall) – Cwblhawyd (cyfarfod heddiw)
- Cam gweithredu 2: (adroddiad ar yr adolygiad) – Cwblhawyd
- Cam gweithredu 3: (Cyfarfod Fforwm Hil Cymru) – Cwblhawyd (cyfarfod heddiw)
- Cam gweithredu 4: (Rhannu cyllid cydraddoldeb a chynhwysiant) – Cwblhawyd yr ymarfer cychwynnol mewn perthynas â 2018/19 ond gofynnodd yr aelodau am fwy o amser. **Bydd y swyddogion yn ystyried hyn ymhellach.**
- Cam gweithredu 5: (Cyfarfod â'r Gweinidog Addysg) – Cwblhawyd ond caiff cyfarfod arall ei drefnu
- Cam gweithredu 6: (Penodiadau cyhoeddus) – Dywedodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip fod cynllun clir ar waith bellach mewn perthynas ag amrywiaeth mewn penodiadau cyhoeddus. Mae hyn yn ategu un o ymrwymadau Maniffesto'r Prif Weinidog.
- Cam gweithredu 7: (Rhannu gwybodaeth am yr adolygiad o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol) – Cwblhawyd
- Cam gweithredu 8: (Trafodaeth mewn Cyfarfod Llawn) – trefnwyd trafodaeth ar gyfer 7 Mai, a bydd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip yn ceisio cynnig ar y cyd â Phlaid Cymru a'r Ceidwadwyr Cymreig.

Cam gweithredu 1: Swyddogion i ystyried opsiynau ar gyfer dadansoddi cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer nodweddion gwarchoddedig dros gyfnod hwy a rhoi diweddariad.

Cam gweithredu 2: Swyddfa breifat y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip i rannu'r cynnig ar y cyd arfaethedig â Shavanah Taj (fel is-gadeirydd Grŵp Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig Llafur Cymru).

Cam gweithredu 3: Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip i gyfarfod â'r Gweinidog Addysg a'r Dirprwy Weinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Cododd yr aelodau nifer o faterion yn deillio o'r cyfarfod ar 4 Chwefror, fel a ganlyn:

- Cais am wybodaeth am nifer y busnesau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sydd wedi elwa ar Gontract Economaidd Llywodraeth Cymru. Cytunodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip y dylid ystyried hyn, ynghyd â mater entrepreneuriaid benywaidd o gefndiroedd pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Dywedodd y byddai'n rhannu cofnodion y cyfarfod hwn â'r holl Weinidogion er mwyn tanlinellu materion sy'n ymwneud â phortffolios eraill.
- Pryder nad yw'n orfodol mwyach i ysgolion roi gwybod i Awdurdodau Lleol am fwlio hiliol ac nad yw bwlio hiliol yn cael digon o gydnabyddiaeth. Roedd yr aelodau'n meddwl bod rhoi gwybod am hyn wedi bod yn orfodol tan 2011, ac nid oeddent yn siŵr pam roedd hyn wedi newid. Gwnaethant drafod a ellid ei gyflwyno eto, a gofynnwyd a allai'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip godi'r mater hwn gyda'r Gweinidog Addysg. Gofynnodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip iddynt ysgrifennu ati, gan roi'r wybodaeth a oedd ganddynt.
- Arweiniodd hyn at sylwadau am y diwylliant mewn rhai ysgolion – plant yn dweud 'nad ydynt yn cario clecs' – rhoddwyd nifer o enghreifftiau o ysgolion gwahanol yng

Nghaerdydd a gwnaed sylwadau nad oedd ysgolion yn mynd i'r afael â'r problemau a oedd wedi deillio o'r digwyddiadau diweddar yn Christchurch nac yn cefnogi plant i ymdopi â sefyllfaoedd trawmatig. Roedd teimlad cyffredinol nad oedd ysgolion yn wynebu'r gwirionedd o ran bwlio a bwlio hiliol mewn ysgolion yng Nghymru.

- Awgrymwyd bod ymchwil yn dangos nad oedd athrawon yn ymwneud â phethau megis Prevent, gan fod yn well ganddynt geisio ymdrin â phethau eu hunain.
- Adborth ar drafodaeth am ysgolion yng nghefn gwlad Cymru lle roedd rhywun wedi dweud nad oedd unrhyw hiliaeth yno oherwydd bod mwyafrif yr ysgol yn wyn. Yn ôl y sôn, defnyddiwyd iaith amhriodol hefyd mewn digwyddiad lle roedd un o swyddogion Llywodraeth Cymru yn bresennol.
- Dywedodd Daniel Hurfod o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) fod hiliaeth ar agenda cyfarfod nesaf Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru. Byddai'n tynnu sylw ei gydweithwyr yn CLILC at y materion a godwyd, a byddai'n croesawu trafodaeth deirochrog rhwng y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip, CLILC a'r Gweinidog Addysg ynghylch mynd i'r afael â hiliaeth mewn ysgolion.
- Gwnaeth y drafodaeth grybwyll ysgolion cynradd a phrifysgolion hefyd. Mewn perthynas ag ysgolion cynradd, dywedodd cynrychiolwyr Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth eu bod yn cael mwy o geisiadau i gynnal sesiynau ar gyfer plant iau ysgolion cynradd bellach a'u bod o'r farn bod hiliaeth yn gwaethygu mewn llawer o ysgolion.
- Roedd rhai ysgolion wedi gofyn am fwy o adnoddau er mwyn iddynt allu cynnal dosbarthiadau ar fynd i'r afael â hiliaeth. Roedd gweithdai Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth yn dda ond ni allai ysgolion fforddio eu cynnal yn rheolaidd, ac roedd angen rhywbeth arnynt y gallent ei ddefnyddio ar adegau eraill.
- Roedd sylwadau am Brifysgol Caerdydd, gan ddweud bod myfyrwyr Mwslimaidd sy'n ferched yn arbennig yn teimlo nad yw eu cwynion yn cael eu clywed (neu nad eir i'r afael â nhw), a'u bod yn wynebu hiliaeth, gan gynnwys gan ddarlithwyr.
- Pryder o ran lefel y difrio a wynebwr gan yrwyr tacsï. Byddai gyrwyr tacsï yn croesawu mwy o ymgysylltu â Heddlu De Cymru drwy UNITE – byddent yn croesawu neges dim goddefgarwch oddi wrth Heddlu De Cymru a Llywodraeth Cymru y gallent ei harddangos yn eu cerbydau. Gwnaeth y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip gydnabod y broblem hon a dweud pan fyddwn yn ymchwilio i'r ateb, y dylem ystyried gweithdrefnau trwyddedu'r Awdurdodau Lleol.
- Anogwyd yr aelodau i fynd i sesiwn sydd ar ddod (4 Ebrill) gydag uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y cwricwlwm newydd i ysgolion.

Cam gweithredu 4: Yr ysgrifenyddiaeth i geisio gwybodaeth am fusnesau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sy'n elwa ar y Contract Economaidd ac adrodd yn ôl.

Cam gweithredu 5: Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth i ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip a chynnwys gwybodaeth am y sefyllfa ynghylch rhoi gwybod am ddigwyddiadau hiliol fel mater o drefn.

Cam gweithredu 6: Swyddogion cydraddoldeb i gyfarfod â swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar drwyddedu tacsï ac adrodd yn ôl i'r Fforwm.

Cam gweithredu 7: Daniel Hurford i gysylltu â swyddogion a chynnig cyfarfod teirochrog.

Eitem 3: Troseddau Casineb ar sail Hil

Dywedodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip ei bod wedi cyhoeddi cyllid ychwanegol gwerth £840k dros ddwy flynedd oddi wrth Gronfa Bontio'r Undeb Ewropeaidd yr wythnos diwethaf i fynd i'r afael â throseddau casineb, yn enwedig ar sail hil, yn ystod y cyfnod cyn gadael yr UE. Byddai £360k o'r cyllid hwn yn mynd tuag at gynyddu gallu ac adnoddau Cymorth i Ddiodefwyr. Rhoddid £480k ar gyfer cronfa grant i sefydliadau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ar gyfer mynd i'r afael â throseddau casineb ar sail hil a hoffai i'r grant hwn gael ei lunio ar y cyd â rhanddeiliaid, gan ddechrau yn y cyfarfod hwn heddiw.

Dywedodd y Prif Uwcharolygydd Mark Warrender y byddai eleni yn nodi 20 mlynedd ers adroddiad MacPherson ar achos Stephen Lawrence. Mae angen gwneud cryn dipyn o hyd er mwyn gwella cynrychiolaeth pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yng ngweithlu'r Heddlu. Gwnaed cynnydd ym maes stopio a chwilio yng Nghymru, wrth i bob un o'r pedwar Heddlu yng Nghymru gytuno i ddefnyddio arfer gorau.

Amlinellodd y systemau a oedd eisoes ar waith yng Nghymru i alluogi diodefwyr i roi gwybod am droseddau casineb a cheisio cymorth. Ystyrir bod y systemau yng Nghymru yn gyfystyr ag arfer gorau yn y DU a'r byd, fel yr adlewyrchwyd mewn adroddiad arolygu y llynedd. Mae lefelau boddhad diodefwyr yn uchel iawn. Mae Bwrdd Cyfiawnder Cymru ar gyfer Troseddau Casineb yn chwarae rôl allweddol, yn ogystal â Chanolfan Genedlaethol Adrodd am Droseddau Casineb a Chymorth, a'r Rhaglen Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol, y mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r ddwy ohonynt. Fodd bynnag, dywedodd y gellir gwneud mwy o hyd i annog diodefwyr i roi gwybod am achosion a cheisio cymorth (er bod cyfran y diodefwyr sy'n cysylltu â'r Heddlu eisoes yn uwch nag ar gyfer y rhan fwyaf o fathau eraill o droseddau). Yn arbennig, mae angen i ni annog pobl sy'n goddef difrïo "beunyddiol" i roi gwybod am achosion.

Gwnaeth y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip nodi'r ystadegau ym Mhapur 3 sy'n dangos mai cymunedau Mwslimaidd ac Asiaidd/Asiaidd Prydeinig yng Nghymru a oedd yn diodef y cyfraddau uchaf o droseddau casineb (cyfuniad o droseddau ar sail hil a chrefydd).

Gofynnodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip i'r aelodau gyflwyno awgrymiadau ar y ffordd orau o ddefnyddio'r gronfa grant gwerth £480k (dros ddwy flynedd). Awgrymodd Paul y dylai'r ysgrifenyddiaeth ddsbarthu holiadur i'r aelodau ei gwblhau er mwyn casglu eu barn. Dywedodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip fod angen i ni fod yn strategol, gan glustnodi cyllid, yn enwedig i feysydd a fyddai'n helpu i atal troseddau casineb. Dywedodd fod y syniadau a drafodwyd eisoes yn y cyfarfod hwn yn cynnwys adnoddau i ysgolion, gwaith gyda gyrwyr tacsï ac ymgyrch dim goddefgarwch. Pwysleisiodd bwysigrwydd cydgyllunio a chydgyhyrchu i'r cynllun hwn.

Nododd yr aelodau fod diffyg amrywiaeth ymhlith staff asiantaethau cymorth (megis Cymorth i Ddiodefwyr a Chanolfannau Cyngor ar Bopeth) yn golygu bod y bobl sy'n diodef troseddau casineb ar sail hil yn ei chael yn anos siarad am eu profiadau a'u problemau.

Ynghylch adroddiad MacPherson, dywedodd yr aelodau fod angen cymryd mwy o gamau gweithredu cadarnhaol i sicrhau amrywiaeth yn y gweithle, a bod yr amser wedi dod i gael trafodaeth am gamau gweithredu cadarnhaol a gwahaniaethu cadarnhaol. Awgrymwyd y

dylai pob Heddlu benodi o leiaf un unigolyn dynodedig ar gyfer materion pobl dduon ac Asiaid a lleiafrifoedd ethnig a allai roi cyngor i swyddogion troseddau casineb eraill ar droseddau casineb ar sail hil.

Dyweddodd yr aelodau fod cynrychioli pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn fwy mewn bywyd cyhoeddus yn allweddol hefyd – e.e. Llywodraeth Cymru, swyddfeydd y Comisiynwyr. Gallai Llywodraeth Cymru fynnu bod y Comisiynwyr yn cyflogi staff sy'n cynrychioli'r amrywiaeth yng Nghymru.

Awgrymwyd bod angen i ni gael sefydliad wedi'i ariannu yng Nghymru sy'n gallu cefnogi pobl sy'n cwyno am hiliaeth sefydliadol.

Trafodwyd a ddylid ystyried Islamoffobia, gwrth-Semitiaeth a gwrth-Siciaeth yn droseddau casineb ar sail hil neu'n droseddau casineb ar sail crefydd, neu a ddylid cyllido'r gwaith o fynd i'r afael â'r materion hyn ar wahân. Nodwyd bod Siciaid ac Iddewon yn cael eu cydnabod fel grŵp ethnig ond nad oedd hynny'n wir yn achos Mwslimiaid. Cytunodd Aled Edwards fod hyn yn gyfreithiol gywir ond dywedodd fod arweinwyr ffydd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, drwy Fforwm Hil Cymru, i ddatblygu negeseuon cydlyniant a chynhwysiant cadarnhaol, a bod pob ffydd fawr lle mae pobl yn dioddef yn cael ei chynnwys.

Yn dilyn trafodaeth, y consensws oedd bod angen hyblygrwydd. Daeth yr aelodau i'r casgliad y byddai'n anodd iawn, ac yn ofer, i geisio gwahanu troseddau casineb ar sail hil oddi wrth droseddau casineb ar sail crefydd, gan fod llawer o bobl, yn enwedig yn rhai y gellir gweld eu bod yn perthyn i grŵp ethnig lleiafrifol, dan fygythiad gan y ddau fath.

Cam gweithredu 8: Swyddogion cydraddoldeb i anfon holiadur at yr aelodau yn ceisio eu barn ar y defnydd o'r cyllid gwerth £480k, coladu'r ymatebion ac adrodd yn ôl.

Eitem 4: Diweddariad y Tîm Cymorth Ieuencid Ethnig ar Raglen Ymgysylltu â Phobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan

Rhoddodd Rocio Cifuentes ddiweddariad byr ar y gwaith dros y flwyddyn flaenorol, gan gynnwys lansio'r rhaglen fentora, datblygu papur ar y cyd i fynd i'r afael â phroblemau mewn ysgolion, cynhadledd United We Stand ar 21 Mawrth, a'r argymhellion a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror o dan bedair thema:

1. Hiliaeth a hiliaeth sefydliadol
2. Cydraddoldeb hiliol mewn ysgolion
3. Cydraddoldeb hiliol mewn gwaith a materion economaidd-gymdeithasol
4. Cynrychiolaeth mewn bywyd cyhoeddus

Dyweddodd y byddai'r rhaglen yn datblygu papur ar y cyd yn ystod y flwyddyn nesaf ar fynd i'r afael ag anghydraddoldeb hiliol mewn gwaith, yn enwedig ar gyfer pobl ifanc a graddedigion, a gwahoddodd yr aelodau i gyflwyno tystiolaeth. Tanlinellodd hefyd ei bod yn bwysig i sefydliadau gydweithio, er enghraifft drwy Race Alliance Wales a Chyngor Partneriaeth y Trydydd Sector.

Dyweddodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip yr hoffai weld mwy o fentoriaid o'r Heddlu ac Awdurdodau Lleol yn rhaglen fentora nesaf y Tîm Cymorth Ieuencid Ethnig. Dywedodd Mark Warrender y gallai helpu i recriwtio mentoriaid o'r Heddlu.

Dywedodd Shavanah y byddai'n rhannu adroddiad diweddar gan Unsain Cymru ar wahaniaethu a hiliaeth mewn gwaith. Roedd y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol yn bwriadu datblygu Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a mynd i'r afael â gwahaniaethu mewn gwaith yn y ffordd honno. Gofynnodd a allai'r porth ar gyfer swyddi'r sector cyhoeddus helpu i annog mwy o amrywiaeth ymhlith yr ymgeiswyr am swyddi. Dywedodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip fod y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol yn un o flaenoriaethau'r Prif Weinidog.

Cam gweithredu 9: Shavanah Taj i rannu adroddiad Unsain Cymru.

Cam gweithredu 10: Y Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig i weithio gyda MW i ystyried mentoriaid o'r Heddlu yn rownd nesaf ei brosiect mentora.

Eitem 5: Adolygiad o Fforwm Hil Cymru

Dywedodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip ei bod yn allweddol bod gan Lywodraeth Cymru y dulliau cywir ar gyfer ymgysylltu â chymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru, a byddai'n trafod hyn â'r Prif Weinidog. Dywedodd ei bod am weld cynnydd gwirioneddol eleni – gyda ffocws ar gynnydd *rhwng* cyfarfodydd Fforwm Hil Cymru. Dywedodd fod y drafodaeth yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 7 Mai, y digwyddiadau Windrush ar 22 Mehefin, digwyddiad Noddfa yn y Senedd yr wythnos nesaf, a'r adolygiad o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol oll yn ychwanegu at y momentwm. Nododd fod 'sefyll yn gadarn a mynegi barn' yn rhan o'r peth, a hefyd fod ymwelydd o Libanus wedi dweud yng nghinio Cyngor Mwslimiaid Cymru yn gynharach yr wythnos hon fod Cymru yn anhygoel gan y gallai pobl ddod at ei gilydd yn y ffordd hon. Dywedodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip fod angen i ni adeiladu ar y sylfaen gadarn honno o werthoedd cyffredin er mwyn gwneud cynnydd gwirioneddol a'i bod am i'r bobl, ac aelodau o'r Fforwm, deimlo bod cyfle gwirioneddol i wneud gwahaniaeth.

Gwnaeth y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip geisio a chael cytundeb gan yr aelodau ar y canlynol:

- Mae angen dulliau ymgysylltu niferus yn ogystal â'r Fforwm, mewn rhanbarthau gwahanol a gyda grwpiau gwahanol
- Dylid gweld 2019/20 fel blwyddyn bontio, rhwng y trefniadau presennol a'r trefniadau a roddir ar waith pan fydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd a'r cyllid Cydraddoldeb a Chynhwysiant yn dechrau y flwyddyn nesaf
- Roedd yr aelodau'n fodlon ar y trefniadau ar gyfer ymgynghori ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r rhaglen ariannu yn y dyfodol
- Mae angen adnewyddu aelodaeth y Fforwm

Ystyriwyd bod eitemau 6 (cyllid Windrush) a 7 (Adolygiad o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol) eisoes wedi cael eu trafod yn ystod y cyfarfod.

Cam gweithredu 11: Llywodraeth Cymru i ystyried aelodaeth newydd a Chylch Gorchwyl drafft a'u rhannu â'r grŵp.

Cyn cau: Trafodaeth bord gron

Gwahoddodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip bob aelod i wneud sylwadau terfynol cyn cau'r cyfarfod. Roedd y pwyntiau a godwyd fel a ganlyn:

- Mae'n dda bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod hiliaeth sefydliadol yn broblem ond mae angen i ni symud y tu hwnt i eiriau caredig a gweld Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â hyn o ddifrif. Beth sy'n digwydd gyda rhaglen Brentisiaeth Llywodraeth Cymru a'r gwaith Allgymorth gyda phobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig? Yn falch bod y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip am weld camau gweithredu ymarferol ac y bydd yn 'curo ar ddrysau' Gweinidogion eraill.
- Mae'r Rhaglen Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol estynedig yn cynnig cyfle da i ymgysylltu â mwy o gymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ac roedd yn dda gweithio gyda Fforwm Hil Cymru ar hyn. Cynigiodd Riaz rannu canfyddiadau arolwg yr oedd yn ei gynnal ar bryderon pobl ynghylch Brexit.
- Mae Cymru yn wynebu mwy o hiliaeth yn erbyn pobl ifanc. Mae angen i sefydliadau gydwethio er mwyn i ni wneud y defnydd gorau o adnoddau.
- Mae'n anodd iawn i gynghorau cydraddoldeb y trydydd sector ddwyn Awdurdodau Lleol i gyfrif am y ffordd y maent yn cyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Dywedodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip y byddai'n fodlon cyfarfod â Phrif Weithredwyr/Arweinwyr Awdurdodau Lleol
- Mae adnoddau a gallu yn broblem go iawn i sefydliadau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ac mae'n anodd iawn gwneud y gwaith strategol ar yr un pryd â brwydro i gyflenwi gwasanaethau. Mae angen mwy o gyllid er mwyn cynyddu gallu fel y gallwn weld camau gweithredu gwirioneddol yn y dyfodol.
- Roedd pryderon bod gweithwyr y sector cyhoeddus (yr Heddlu, gwasanaethau cymdeithasol, barnwyr) "yn aml yn gwneud camgymeriadau mawr" mewn gwaith achosion. Dywedodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip fod angen mynd i'r afael â hyn yn strategol drwy CLILC. Roedd trafodaeth ynghylch a oedd angen i Fforwm Hil Cymru felly gynnwys cynrychiolwyr o gyrff eraill y sector cyhoeddus, megis iechyd. Cytunodd yr aelodau â'r awgrym y dylai cyfarfodydd Fforwm Hil Cymru yn y dyfodol fod ar thema benodol fel y gellid gwahodd swyddogion perthnasol o gyrff y sector cyhoeddus.
- Cafwyd cwestiwn ynghylch a oedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu datblygu strategaeth ar gydraddoldeb hiliol, ac ar fynd i'r afael ag eithafiaeth asgell dde. Dywedodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip y byddai hyn yn cael ei ystyried yn ystod yr ymgynghoriad ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol eleni.
- Awgrymwyd bod angen i'r Fforwm nodi ac yna ganolbwyntio ar gamau gweithredu allweddol â blaenoriaeth ar gyfer 2019-20 ac yna bod adroddiadau cynnydd mewn cyfarfodydd Fforwm Hil Cymru yn y dyfodol ar y camau gweithredu hyn. Cytunodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip ar hyn.

- O ran y grant ar gyfer Diwrnod Windrush, awgrymwyd y dylid cynnwys arweinwyr hŷn cenhedlaeth Windrush ar bob panel dyfarnu grant. Awgrymodd Uzo hefyd y dylai Iolande Banu o Race Council Cymru fod yn aelod ychwanegol o Fforwm Hil Cymru. Dywedodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip ei bod am sicrhau bod yr holl Grant ar gyfer Diwrnod Windrush yn cael ei wario'n rhanbarthol ac yn genedlaethol, a'i fod yn cydnabod cyfraniadau cenhedlaeth Windrush at Gymru. Gofynnodd i Riaz drosglwyddo'r neges honno at y Cydgysylltwyr Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol sy'n cydgysylltu'r broses o ddyrannu cyllid yn eu rhanbarthau. Gofynnodd i'w swyddogion geisio archebu'r Senedd ar gyfer 22 Mehefin.
- Nodwyd datblygiad grŵp trawsbleidiol ar hil. Mae John Griffiths AC wedi cytuno i fod yn gadeirydd, gyda Bethan Sayed AC yn ddirprwy. Cytunir ar y Cylch Gorchwyl yn y cyfarfod cyntaf. Dywedodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip ei bod am weithio gyda'r grŵp ar gynnig ar y cyd ar gyfer y drafodaeth yn ystod y Cyfarfod Llawn ar hil ar 7 Mai, gan ofyn am gefnogaeth yr holl Senedd ar gyfer camau gweithredu i ddatblygu'r agenda.
- Nodwyd dau ddigwyddiad a oedd ar ddod: seminar briffio yn swyddfa Unsain ar 1 Ebrill, a fydd yn ystyried cynhwysiant hiliol yn y gweithle, a chyfarfod ar 4 Ebrill â swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y cwricwlwm newydd.

Cam gweithredu 12: Riaz i rannu canfyddiadau ei arolwg yn ardal Bae Abertawe ar bryderon pobl ynghylch Brexit.

Cam gweithredu 13: Llywodraeth Cymru i chwilio am gyfle i'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip gyfarfod â Phrif Weithredwyr Awdurdodau Lleol a CLILC.

Cam gweithredu 14: Yr ysgrifenyddiaeth i gynnig thema ar gyfer y cyfarfod nesaf a gwahodd swyddogion perthnasol o gyrff y sector cyhoeddus, ac adrodd ar y cynnydd/camau gweithredu sydd ar waith.

Cam gweithredu 15: Aelodau'r fforwm i awgrymu camau gweithredu allweddol â blaenoriaeth ar gyfer y Fforwm yn 2019/20, a'r ysgrifenyddiaeth i geisio cytundeb ar y rhain a threfnu adroddiad cynnydd yn ystod y cyfarfod nesaf.

Cam gweithredu 16: Yr ysgrifenyddiaeth i geisio archebu'r Senedd ar gyfer digwyddiad i ddathlu cenhedlaeth Windrush ar 22 Mehefin.

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Caiff dyddiad y cyfarfod nesaf (mis Medi) ei gyhoeddi cyn bo hir.